



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Ymgynghoriad ar ein ffioedd a thaliadau rheoleiddio ar gyfer 2022 ymlaen.

Bydd y cynlluniau a newidiadau cyfredol a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn yn aros yn eu lle oni bai iddynt gael eu disodli gan y cynlluniau codi tâl sy'n cael eu datblygu trwy ein Hadolygiad Strategol o Daliadau.

Tabl cynnwys

1	Cyflwyniad	3
2	Newidiadau i'n taliadau presennol	5
3	Newidiadau i gynlluniau taliadau statudol	6
3.1	Y Tâl Uned Safonol ar gyfer tynnu dŵr	6
3.2	Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU.....	6
3.3	Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol – ansawdd dŵr	9
4	Materion eraill i'w nodi	9
4.2	Adolygu ein darpariaeth o gyngor cyn ymgeisio	9
4.3	Gwasanaeth Cyngori yn ôl Disgresiwn.....	10
4.4	Adolygiad Strategol o Daliadau.....	11
5	Ymateb i'r ymgynghoriad hwn.....	12
5.1	Sut i ymateb.....	12
5.2	Diogelu data	13
5.3	Y camau nesaf.....	14
	Atodiad 1 – Grŵp Ymgynghorol Talwyr Taliadau	14

1 Cyflwyniad

Pwrpas Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau bod ein hadnoddau naturiol a'n hamgylchedd yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio mewn modd cynaliadwy sy'n fuddiol i bobl, i'r amgylchedd ac i'r economi.

Mae ein cylch gwaith yn eang ac yn cynnwys darparu ystod o wasanaethau rheoleiddiol. Yn unol â gofynion y llywodraeth, mae'n rhaid i ni adennill costau'r gwasanaethau rheoleiddio hyn oddi wrth y rhai sy'n cael eu rheoleiddio gennym, yn hytrach na thrwy drethiant cyffredinol. Mae'r ffioedd a thaliadau sy'n cael eu codi i gwmpasu'r costau rheoleiddiol yn gyfrifol am tua 18% o gyfanswm cyllid 2021/22 Cyfoeth Naturiol Cymru, sef £202 miliwn.¹

Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu ein Cynlluniau Ffioedd a Thaliadau ar sail flynyddol er mwyn sicrhau ein bod yn adennill ein costau ac yn bodloni unrhyw ofynion technegol. Rydym hefyd yn adolygu'r ffordd rydym yn gweithio, gan sicrhau bod ein prosesau yn effeithlon ac effeithiol, i gadw taliadau mor isel â phosibl.

Wrth osod ffioedd a thaliadau, rydym yn dilyn y gofynion a nodir yn '*Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*',² gan sicrhau mai dim ond costau cymwys sy'n cael eu cynnwys o fewn cyfrifiadau. Mae ein cynlluniau codi tâl cyfredol ar gael ar ein gwefan.³

Rydym yn cyfarfod yn aml ac yn trafod ein cynigion gyda'r Grŵp Ymgynghorol Talwyr Taliadau, sy'n cynnwys rhanddeiliaid amrywiol o sefydliadau masnach a chynrychioliadol. Mae hyn yn ein helpu i ddatblygu ein strategaeth a chynlluniau codi tâl ar gyfer y dyfodol. Hoffem ddiolch i'r rhai yn y grŵp am eu hymrwymiad i gynrychioli safbwyntiau eu haelodau ac am barhau i weithio gyda ni yn y ffordd hon, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Rydym yn adolygu aelodaeth y grŵp hwn yn flynyddol er mwyn gwneud yn siŵr fod gennym aelodau perthnasol i'r newidiadau arfaethedig. Mae rhestr o'r aelodaeth bresennol wedi'i hatodi yn Atodiad 1.

Yn ogystal â dilyn ein hegwyddorion rheoleiddio,⁴ y Cod Rheoleiddwyr⁵ a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, rydym yn ymrwymedig i ddilyn yr egwyddorion codi tâl canlynol:

¹ <https://naturalresourceswales.gov.uk/about-us/strategies-and-plans/wellbeing-objectives/introduction-to-corporate-plan/?lang=cy>

² <https://llyw.cymru/rheoli-arian-cyhoeddus-cymru>

³ <https://cyfoethnaturiol.cymru/about-us/what-we-do/how-we-regulate-you/our-charges/?lang=cy>

⁴ <https://cyfoethnaturiol.cymru/about-us/what-we-do/how-we-regulate-you/regulatory-principles/?lang=cy>

⁵ https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/300126/14-705-regulators-code.pdf

- tryloywder ein penderfyniadau wrth godi taliadau
- osgoi traws-gymhorthdal rhwng trefniadau
- darparu gorwelion cynllunio tymor hwy lle bynnag y bo'n bosibl
- osgoi cylchoedd o leihau wedyn codi taliadau drwy reoli ein gwargedion a'n diffygion yn weithredol
- cadw taliadau mor isel â phosibl drwy hybu gwell effeithlonrwydd yn barhaus

Rydym yn parhau i fonitro'r effaith ar ein taliadau yn dilyn ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd (UE), nawr ac yn y dyfodol, yn enwedig mewn meysydd ble mae deddfwriaeth yr UE yn penderfynu neu'n dylanwadu ar ein rheoleiddio.

Rydym eisiau eich barn a'ch sylwadau ar ein cynigion ar gyfer ein taliadau rheoleiddiol o 1 Ebrill 2022, fel y nodir yn adran 3 isod. Byddwn yn defnyddio'r adborth i lywio ein cynlluniau terfynol, yr ydym yn bwriadu eu gweithredu o 1 Ebrill 2022, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cau am hanner dydd ddydd Llun, 10 Ionawr 2022.

2 Newidiadau i'n taliadau presennol

Rydym yn adolygu ein dull o ddarparu gwasanaethau yn barhaus er mwyn sicrhau bod ein prosesau mor effeithlon â phosibl. Rydym yn parhau i ddatblygu ein dull rheoleiddio sy'n seiliedig ar le, sy'n ein helpu i gyflawni'r canlyniadau sydd eu hangen ar amgylchedd Cymru ac adferiad gwyrdd, gan ffurfio cysylltiadau cryfach â phobl a busnesau. Rydym yn parhau i ddatblygu ein dull modelu costau i gael costau sylfaenol tymor hir mwy sicr ac i gynyddu tryloywder cynlluniau unigol ar gyfer ein rhanddeiliaid.

Mae'r pandemig COVID-19 wedi cyflwyno ystod eang o heriau newydd ac arwyddocaol, gydag amodau gwaith newydd, mesurau'r llywodraeth wedi'u hanelu at gyfyngu ar ledaeniad y feirws, ac amgylchiadau ariannol anodd i gyd yn cael effaith ar fusnesau, pobl a'n heconomi. Roeddem yn bwriadu lansio Cynllun Codi Tâl Rheoliadol newydd ym mis Ebrill 2021, yn deillio o'n Hadolygiad Strategol o Daliadau. Fodd bynnag, yn erbyn cefndir y pandemig, rydym ar hyn o bryd yn cynnig gohirio cyflwyno cynllun newydd tan yn ddiweddarach yn 2022 (ar gyfer taliadau trwyddedu) a 2023 (ar gyfer taliadau parhau). Mae angen i ni felly gynnal ein cynlluniau codi tâl nes eu bod yn cael eu disodli.

Ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2022 hyd nes y byddwn yn ymgynghori ar ein cynlluniau newydd ac yn eu lansio, rydym yn cynnig cynnal ein Cynllun Taliadau Rheoliadol presennol cyn belled ag y bo modd gwneud hynny. Fodd bynnag, mae angen i ni wneud addasiadau i rai taliadau er mwyn sicrhau ein bod yn adennill costau yn llawn. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio sicrhau bod ein talwyr taliadau yn ymwybodol o'r cynigion hyn a bod ganddynt gyfle i roi eu barn i ni.

3 Newidiadau i gynlluniau taliadau statudol

3.1 Y Tâl Uned Safonol ar gyfer tynnu dŵr

Mae angen i ni godi'r Tâl Uned Safonol ar gyfer tynnu dŵr i wasanaethu anghenion cynnal a chadw cyfalaf parhaus Rhaglen Cronfeydd Dŵr adran 20 Dŵr Cymru.

Yn ein hymgyngoriad yn 2019/20, gwnaethom amlygu'r angen i ariannu cynnydd sylweddol yng nghostau cyfalaf Cytundeb Gweithredu Cronfeydd Dŵr adran 20, yn ogystal â phwysau costau eraill, drwy adolygiad ar y cyd o opsiynau ariannu gyda Dŵr Cymru. Mae gennym ddyletswydd, cyn belled â'i bod yn rhesymol ymarferol, i gynnal rheolaeth ddiogel a phriodol o unrhyw gronfeydd dŵr, cyfarpar neu waith arall gydag ymgymerydd. Mae hyn er mwyn diogelu dulliau rheoli adnoddau dŵr. Mae newidiadau i ofnydd diogelwch cronfeydd dŵr, pwysau galw, ac asedau allweddol yn dod i derfyn eu hoes ddefnyddiol wedi arwain at yr angen am fuddsoddiad sylweddol o £23.5 miliwn mewn seilwaith dros wyth mlynedd. Er enghraifft, mae rhwymedigaethau deddfwriaethol newydd sy'n ymwneud â safonau manylach ar gyfer seilwaith, megis gorlifannau, pibellau ac argaeau, yn golygu bod angen uwchraddio. Caiff hyn ei dalu drwy'r cyfrif Tâl Uned Safonol yn unol â thelerau cytundebau adran 20.

Er mwyn rheoli balansau taliadau ac osgoi cynnydd mawr yn y tymor byr, y cynnig a wnaethom yn ein hymgyngoriad yn 2019/20 oedd llyfnhau'r costau hyn dros amserlen hwy o wyth i ddeng mlynedd. Ar ôl ymgynghoriad, gwnaethom gynnydd cychwynnol i'r Tâl Uned Safonol o +5% yn 2019/20, cynnydd o +2.75% yn 2020/21, a chynnydd o +2.23% yn 2021/22.

Rydym yn cynnig cynnydd o +2.8% ar gyfer 2022/23. Bydd angen cynnydd pellach yn y dyfodol hefyd, o ystyried graddfa'r rhaglen hon.

Cwestiwn 1. Beth yw eich barn am y cynnydd arfaethedig o +2.8% i'r Tâl Uned Safonol ar gyfer tynnu dŵr?

3.2 Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU

O ganlyniad i'r DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ar 31 Rhagfyr 2020, trosglwyddodd diwydiant y DU o gynllun masnachu'r UE (Cynllun Masnachu Allyriadau'r UE) i gynllun masnachu yn y DU (Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU). Gweithredwyd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ar 1 Ionawr 2021.

Cydweithiodd rheoleiddwyr yn y DU gyda'i gilydd a gyda rhanddeiliaid i ddatblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU a'u cynlluniau codi tâl annibynnol eu hunain yn seiliedig ar adennill costau rheoleiddiol eu cynlluniau priodol.

Datblygodd Cyfoeth Naturiol Cymru gynllun codi tâl ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, y buom yn ymgynghori arno yn gynharach eleni, ac mae wedi bod ar waith ers 1 Gorffennaf 2021. Datblygwyd y cynllun gyda rhanddeiliaid ac yn unol â pholisi '*Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*' Llywodraeth Cymru i adfer costau llawn rheoleiddio'r cynllun yng Nghymru. Roedd ein taliadau yn ymgorffori cymhorthdal uniongyrchol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi costau pontio sy'n gysylltiedig â dibrisiant a chostau rheoli gwasanaeth o ganlyniad i'r cyfnod pontio i gynllun yn y DU.

Rydym yn cynnig cynnydd o +21% ar gyfartaledd ar gyfer taliadau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Mae'r cynnydd hwn yn addasu ar gyfer diwedd cymorth ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod trosglwyddo, ac mae'n addasu ar gyfer adennill anghyflawn ar gyfer rhai gweithgareddau. Mae ein taliadau arfaethedig yn parhau i fod yr un fath â'n taliadau blaenorol, neu ychydig yn is na hynny, o dan hen Gynllun Masnachu Allyriadau'r UE.

Cynllun llawn

Taliadau parhau	Taliadau cyfredol	Taliadau newydd	% y newid
Llai na 50kt y flwyddyn	£1,627	£1,973	21%
O leiaf 50kt a dim mwy na 500kt y flwyddyn	£2,848	£3,425	21%
Mwy na 500kt y flwyddyn	£3,255	£3,946	21%
Optio allan (CATEGORI NEWYDD)	£407	£493	21%
Ceisiadau am drwyddedau	Taliadau cyfredol	Taliadau newydd	% y newid
Categori A ac optio allan – yn allyrru llai na 50kt y flwyddyn	£1,627	£1,973	21%
Categori B – yn allyrru o leiaf 50kt y flwyddyn a dim mwy na 500kt y flwyddyn	£2,441	£2,959	21%
Categori C – yn allyrru mwy na 500kt y flwyddyn	£3,255	£3,946	21%
Amrywiadau i drwyddedau	Taliadau cyfredol	Taliadau newydd	% y newid
Amrywiadau i drwyddedau lle telir ffi gyda chais	£814	£986	21%
Amrywiad i drwydded heb wneud cais	£814	£986	21%
Amrywiad i drwydded (terfynu statws eithriedig)	£814	£986	21%
Cynyddu'r targed allyriadau	£1,627	£1,973	21%

Trosglwyddo trwydded	£1,627	£1,973	21%
Ildio trwydded	£1,627	£1,973	21%
Dirymu trwydded	£1,627	£1,973	21%
Cronfa Newydd-ddyfodiaid	£2,441	£2,959	21%

Hedfanaeth

Tâl parhau sylfaenol	Taliadau cyfredol	Taliadau newydd	% y newid
Llai na 50kt y flwyddyn	£1,280	£1,551	21%
O leiaf 50kt a dim mwy na 500kt y flwyddyn	£1,660	£2,012	21%
Mwy na 500kt y flwyddyn	£2,040	£2,472	21%
Tabl 5.2.2.a: Taliadau parhau amrywiol ar gyfer gweithredwyr awyrennau			
Tâl parhau amrywiol	Taliadau cyfredol	Taliadau newydd	% y newid
Llai na 50kt y flwyddyn	£420	£509	21%
O leiaf 50kt a dim mwy na 500kt y flwyddyn	£553	£671	21%
Mwy na 500kt y flwyddyn	£680	£824	21%
Ceisiadau	Taliadau cyfredol	Taliadau newydd	% y newid
Cais am gynllun allyriadau	£500	£606	21%
Amrywiad i gynllun allyriadau	£286	£347	21%
Cais am gynllun meincnodi	£553	£671	21%
Tâl am gais i'r Gronfa Arbennig	£747	£906	21%

Cwestiwn 2. Beth yw eich barn ar y cynnig i gynyddu taliadau o +21% ar gyfartaledd yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU?

3.3 Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol – ansawdd dŵr

Mae ein taliadau am ansawdd dŵr wedi aros yn ddigyfnewid ers ffurfio CNC ym mis Ebrill 2013. Rydym wedi nodi adennill anghyflawn o fewn y drefn trwyddedu ansawdd dŵr y mae angen i ni ei gydbwysu cyn unrhyw newidiadau arfaethedig trwy ein Hadolygiad Strategol o Daliadau.

Rydym yn parhau i adolygu ac asesu'r cynlluniau gwariant yn y gyfundrefn hon i weld pa newidiadau y gellir eu gwneud, ond, ar gyfer 2022-23, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnig cymhwysu cynnydd mewn chwyddiant (CPIH). Y gyfradd fydd +3% yn seiliedig ar y CPIH ar gyfer Medi 2021.

Cwestiwn 3. Beth yw eich barn ar y cynnig i wneud cynnydd mewn chwyddiant i'r taliadau ansawdd dŵr o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol?

4 Materion eraill i'w nodi

Rydym yn adolygu ein darpariaeth o gyngor sylfaenol cyn ymgeisio a'n Gwasanaeth Cynghori yn ôl Disgresiwn. Rydym am gael eich barn i'n helpu i ddeall profiad y cwsmer a gwerth ein cyngor yn well. Defnyddir y wybodaeth hon i lywio newidiadau posibl i gynlluniau codi tâl fel rhan o'r Adolygiad Strategol o Daliadau, yn ogystal â rhaglenni gwella yn CNC.

4.2 Adolygu ein darpariaeth o gyngor cyn ymgeisio

Hoffem ddeall y gwerth neu'r budd y mae cyngor cyn ymgeisio yn ei ddarparu, ac unrhyw welliannau posibl i'r ddarpariaeth o gyngor neu ganllawiau y gallwn eu gwneud.

Rydym yn darparu cyngor sylfaenol cyn ymgeisio i helpu cwsmeriaid i ddeall pa ganiatadau sydd eu hangen arnynt a sut i wneud cais. Gall hyn gynnwys eu cyfeirio at wybodaeth a ffurflenni neu ffynonellau gwybodaeth perthnasol sydd eu hangen arnynt i baratoi cais o safon dda (er enghraifft, y gofynion cyfreithiol), sut i nodi risgiau amgylcheddol, a sut i ddod o hyd i ganllawiau arfer gorau sefydledig.

Yn ein barn ni, dylai darparu cyngor sylfaenol ymwneud â chyfeirio, ac ni ddylai gymryd y ddwy awr lawn yr ydym yn ei neilltuo ar ei gyfer ar hyn o bryd. Rydym yn ystyried

bod yn fwy penodol ynghylch yr hyn y byddwn yn ei ddarparu fel lefel sylfaenol o gyngor, a chael gwared ar yr elfen o amser, er mwyn gwneud yr hyn y gallai ein cwsmeriaid ei ddisgwyl gan ein staff yn fwy amlwg.

Mae angen adfer y gost o ddarparu cyngor sylfaenol ar draws y drefn ac efallai na fydd pob cwsmer ei angen nac yn ei ddefnyddio, felly mae'n bwysig ein bod yn dod o hyd i ddull sy'n deg i'r holl bobl sy'n talu taliadau.

Mae'n bwysig nodi nad yw ein cyngor sylfaenol cyn ymgeisio wedi'i gynllunio i helpu ymgeiswyr i gwblhau adroddiadau neu gynnal asesiadau o wybodaeth a allai ragderfynu neu ragfarnu ein rôl wrth benderfynu ar gais am drwydded.

Cwestiwn 4. Os ydych wedi gofyn am gyngor sylfaenol (heb dâl) cyn ymgeisio gan CNC:

4.1 A oedd y cyngor yn hawdd ei gyrchu ac a oedd o gymorth i ddatrys y mater a oedd gennych?

4.2 Pam y gwnaethoch chi ofyn am gyngor cyn ymgeisio gan CNC? Er enghraifft, a oedd hynny oherwydd nad oedd y wybodaeth neu'r canllawiau yr oeddech eu hangen yn hawdd dod o hyd iddynt?

4.3 A wnaeth y cyngor eich helpu i wella ansawdd eich cais neu wneud rhywbeth yn wahanol? Esboniwch sut y gwnaeth y cyngor eich helpu a'r hyn y gwnaethoch chi yn wahanol.

4.3 Gwasanaeth Cyngori yn ôl Disgresiwn

Yn ogystal â chyngor sylfaenol cyn ymgeisio, mae CNC yn darparu cyngor unigryw manylach ar gais trwy ein Gwasanaeth Cyngori yn ôl Disgresiwn, y codir tâl ar ei gyfer yn ôl cyfradd safonol yr awr.

Nid CNC yw'r unig ffynhonnell o gyngor unigryw, ac nid yw'n orfodol i ofyn am ein cyngor. Fodd bynnag, pan ofynnir inni wneud hynny, rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaeth o safon uchel sy'n cyfateb i'r hyn a ddarperir gan ymgynghoriaethau neu sefydliadau eraill sydd ar gael ar y farchnad agored.

Rydym yn adolygu ein darpariaeth o gyngor unigryw yn CNC ac yn ystyried nifer o ffyrdd y gallem wella'r gwasanaeth. Er enghraifft, gallem wneud un o'r canlynol:

- Cynnig un pwynt cyswllt i olrhain, rheoli ac anfonebu ar gyfer cyflwyno cyngor
- Datblygu 'cynhyrchion' sydd wedi'u costio yn hytrach na dibynnu ar ddyfyniadau pwrpasol

Byddem yn croesawu eich barn am ein rôl a'ch disgwyliadau o'r gwasanaeth.

Cwestiwn 5. Os ydych wedi gofyn am gyngor dewisol unigryw (gyda thâl) gan CNC:

5.1 A oedd y cyngor yn hawdd ei gyrchu ac a oedd o gymorth i ddatrys y mater a oedd gennych?

5.2 Pam y gwnaethoch chi ofyn am gyngor unigryw gan CNC?

5.3 A wnaeth y cyngor eich helpu i wella safon eich cais neu wneud rhywbeth yn wahanol? Esboniwch sut y gwnaeth y cyngor eich helpu a'r hyn y gwnaethoch chi yn wahanol.

5.4 A gyflwynwyd y cyngor ar amser ac a oeddech chi'n fodlon â'r cyngor a gawsoch?

4.4 Adolygiad Strategol o Daliadau

Mae'r pandemig COVID-19 wedi achosi aflonyddwch i fusnesau a chymunedau ledled y byd. Ein bwriad oedd cyflawni ein rhaglen Adolygiad Strategol o Daliadau ym mis Ebrill 2020. Fodd bynnag, gwnaethom ohirio ein darpariaeth nes Ebrill 2021 oherwydd yr effaith ar ein ffyrdd o weithio a'r sylfaen dystiolaeth sydd ei hangen arnom i sicrhau bod y cynlluniau codi tâl newydd yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Rydym yn bwriadu

cyflwyno taliadau ymgeisio diwygiedig, lle mae angen newidiadau, yn ystod hydref 2022. Yna, byddwn yn anelu at gyflawni taliadau parhau diwygiedig ym mis Ebrill 2023.

Mae rhaglen yr Adolygiad Strategol o Daliadau yn parhau i gasglu'r dystiolaeth sydd ei hangen arni i sicrhau bod unrhyw gynllun newydd yn adlewyrchu'r gwaith a wnawn ym mhob un o gyfundrefnau rheoleiddio CNC yn llawn. Bydd unrhyw newidiadau i'r cynllun codi tâl sy'n deillio o'r adolygiad hefyd yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu yn y lle cywir. Bydd unrhyw newidiadau yn ystyried ein rhwymedigaeth statudol i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy fel y nodir yn Neddff Amgylchedd Cymru 2016 a nodau llesiant CNC sy'n ofynnol yn ôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Arweinir ein Hadolygiad Strategol o Daliadau gan egwyddorion codi tâl CNC, sy'n cael eu cymhwyso ar draws pob trefn reoleiddio. Bydd unrhyw newidiadau arfaethedig i'r cynllun codi tâl yn dryloyw ac yn cael eu rhannu gyda'n Grŵp Ymgynghorol Talwyr Taliadau, sy'n cynrychioli ystod eang o sectorau. Byddwn yn cydweithio â'r Grŵp Ymgynghorol Talwyr Taliadau ac yn ystyried barn y grŵp wrth ddatblygu ein cynigion. Bydd CNC yn sicrhau ein bod yn deall yr effaith ar dalwyr taliadau a sectorau o ganlyniad i unrhyw newidiadau arfaethedig i'n cynllun codi tâl.

5 Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Rydym eisiau eich barn a'ch sylwadau ar ein ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer 2022 ymlaen.

5.1 Sut i ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw **hanner dydd ar 10 Ionawr 2022**.

Gallwch ymateb yn y ffyrdd canlynol:

E-bost

feesandchargesconsultation@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Post

Tîm Rheoleiddio'r Dyfodol – Ymgynghoriad Ffioedd a Thaliadau

Cyfoeth Naturiol Cymru

Maes y Ffynnon

Penrhosgarnedd

Bangor

Gwynedd

LL57 2DW

Ar-lein

Ar gael ar ein gwefan: <https://naturalresourceswales.gov.uk/guidance-and-advice/environmental-topics/consultations/?lang=cy>

5.2 Diogelu data

Sut y caiff y safbwyntiau a'r wybodaeth y byddwch yn eu rhannu â ni eu defnyddio

Bydd unrhyw ymatebion rydych yn eu hanfon atom yn cael eu gweld yn llawn gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n ymdrin â'r ymgynghoriad. Gallai aelodau eraill o staff Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd eu gweld i'w helpu i gynllunio ar gyfer ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Bwriadwn gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Gallem gyhoeddi ymatebion yn llawn. Fel arfer, caiff enw'r ymatebydd a rhan o'i gyfeiriad eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol. Os nad ydych am i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni wrth nodi'ch ymateb ac fe wnawn eu tynnu oddi wrth ddeunydd a gyhoeddir.

Mae'n dal i fod yn bosibl y bydd enwau a chyfeiriadau a dynnwyd gennym yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad ydym yn meddwl y bydd hynny'n digwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn i weld gwybodaeth a gedwir gan sawl corff cyhoeddus, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth nad yw wedi cael ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn ein caniatáu i ddal gwybodaeth yn ôl mewn rhai amgylchiadau. Os oes unrhyw un yn gofyn i weld yr wybodaeth rydym wedi'i dal yn ôl, bydd yn rhaid i ni benderfynu a

fyddwn yn ei rhyddhau ynteu beidio. Os oes rhywun yn gofyn i'w enw a'i gyfeiriad beidio â chael eu cyhoeddi, mae hynny'n ffaith bwysig y byddem yn ei hystyried. Fodd bynnag, weithiau efallai y bydd rhesymau pwysig pam y byddai'n rhaid i ni ddatgelu enw a chyfeiriad rhywun, er ei fod wedi gofyn iddynt beidio â chael eu cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn i ofyn am ei farn cyn penderfynu'n derfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

5.3 Y camau nesaf

Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd yr holl sylwadau (heblaw am wybodaeth bersonol fel y nodwyd uchod) a'n hymatebion ar gael yn gyhoeddus ar ein gwefan. Os ydych yn ymateb gyda chyfeiriad e-bost, gwnawn gydnabod eich ymateb a gwnawn eich hysbysu pan fydd y crynodeb o ymatebion wedi cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

Atodiad 1 – Grŵp Ymgynghorol Talwyr Taliadau

Aelodaeth

Y Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol

Ffederasiwn Busnesau Bach

Hafren Dyfrdwy

Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi

United Utilities

Cymdeithas Cynhyrchion Mwynol

Dŵr Cymru

Severn Trent Water

Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru

Y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad

Cymdeithas Ynni Dŵr Prydain

Micro Hydro Association

Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr

Energy UK

Undeb Amaethwyr Cymru

Cymdeithas Diwydiannau Petrocemegol y DU

Cymdeithas Diwydiannau Cemegol

Confor (Cydffederasiwn Diwydiannau Coedwigoedd)

Coedwigwyr Siartredig

Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)